Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

# Yr ASB yn cyhoeddi pwerau ymchwilio ychwanegol i fynd i’r afael â thwyll bwyd

O 1 Mai 2025 ymlaen, bron i ddegawd ar ôl sefydlu’r NFCU, bydd pwerau newydd o dan PACE yn galluogi ymchwilwyr yr NFCU i wneud cais am warantau chwilio a’u gweithredu, gyda’r mesurau diogelu priodol. Bydd hyn yn helpu i ddiogelu defnyddwyr a busnesau rhag twyll bwyd yn fwy effeithiol.

Sefydlwyd NFCU yr ASB yn dilyn Adolygiad Elliott, yn sgil yr argyfwng cig ceffyl. Ers hynny, mae’r Uned wedi tyfu gyda’r nod o atal twyll bwyd, gan gefnogi busnesau i gyflawni eu cyfrifoldebau i wneud a gwerthu bwyd diogel.

Dros y degawd diwethaf, mae’r NFCU wedi gweithio gyda sefydliadau partner fel yr heddlu ac awdurdodau lleol er mwyn brwydro yn erbyn twyll bwyd, ac erlyn ac atal troseddwyr.

> Mae’r pwerau newydd hyn yn arf hanfodol i sicrhau bod modd bwrw ymlaen ag ymchwiliadau’r NFCU yn fwy uniongyrchol ac effeithiol. Bydd ein hymchwilwyr yn gallu gwneud cais am warantau chwilio a’u defnyddio, gan gynyddu ein gallu i ymateb yn gyflym i gudd-wybodaeth a pharhau i sicrhau bod camau cyflym yn cael eu cymryd i fynd i’r afael â thwyll bwyd.
>
> Mae hyder defnyddwyr yn niogelwch a dilysrwydd bwyd yn uchel. Mae hyn wedi sicrhau amgylchedd sy’n helpu i greu’r amodau i fusnesau Prydain ffynnu.
>
> Byddwn yn dal i weithio’n agos gyda phartneriaid fel yr heddlu ac awdurdodau lleol. Bydd ein pwerau newydd yn rhyddhau eu hadnoddau hanfodol fel y gellir eu dargyfeirio i flaenoriaethau eraill, tra bydd gennym fwy o alluoedd i ddiogelu busnesau a defnyddwyr cyfreithlon.
>
> Andrew Quinn, Pennaeth Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yr ASB

> Bydd y pwerau ymchwilio newydd hyn ar gyfer yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yn helpu i ddiogelu defnyddwyr a chefnogi busnesau cyfreithlon ledled Cymru.
>
> Mae diogelwch bwyd yn rhan hanfodol o iechyd y cyhoedd, a bydd y galluoedd uwch hyn yn sicrhau bod modd cymryd camau gweithredu’n gynt yn erbyn unrhyw un sy’n ceisio tanseilio ein safonau bwyd.
>
> Sarah Murphy, Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, Llywodraeth Cymru

> Mae’n hanfodol gwneud yn si?r bod ein bwyd yn ddilys ac yn ddiogel ar gyfer y cyhoedd ym Mhrydain. Dyna pam mae hi’n hollbwysig cynyddu pwerau’r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd i fynd i’r afael â thwyll bwyd.

> Yn fwy cyffredinol, bydd ein strategaeth fwyd traws-lywodraethol yn sicrhau y gall ein system fwyd barhau i fwydo'r genedl, gwireddu ei photensial ar gyfer twf economaidd, a diogelu'r blaned a maethu unigolion, nawr ac yn y dyfodol.
>
> Daniel Zeichner, y Gweinidog dros Ddiogeledd Bwyd a Materion Gwledig
>
> Mae'r pwerau newydd sydd wedi'u rhoi i'r NFCU yn hollbwysig wrth barhau i frwydro yn erbyn twyll bwyd yn y DU. Bydd bod â'r gallu i fynd i mewn i safleoedd a'u harchwilio yn union ar ôl arestio unigolion dan amheuaeth yn ei gwneud hi'n anoddach o lawer i droseddwyr gael gwared ar dystiolaeth gyhuddol a chuddio'u gweithredoedd. Dw i wedi cefnogi'r datblygiad hwn ym mhwerau'r Uned ers sawl blwyddyn, a dw i'n falch o weld eu bod bellach yn dod i rym. O ganlyniad i'r pwerau newydd hyn, bydd yr holl fusnesau bwyd gonest a defnyddwyr yn y DU yn cael eu diogelu'n well.
> Yr Athro Chris Elliott, Athro diogelwch bwyd a microbioleg ym Mhrifysgol Queen's

Os ydych yn amau twyll bwyd, gallwch roi gwybod i'r tîm Trechu Trosedd Bwyd yn Gyfrinachol drwy ein gwasanaethau ar-lein neu drwy ffonio 0800 028 1180 (0207 276 8787 ar gyfer ffonau symudol a galwadau ffôn o'r tu allan i'r DU).